

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17: Cyngor Bro Morgannwg

Mawrth 2014

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17: Cyngor Bro Morgannwg

Mae UCAC yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan Gyngor Bro Morgannwg ar ei Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17.

Mae UCAC yn undeb llafur sy'n cynrychioli athrawon, arweinwyr ysgol a darlithwyr ym mhob sector addysg yng Nghymru.

Adran 1: Gweledigaeth a nodau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg

Teimla UCAC bod yr adran sy'n amlinellu gweledigaeth yr Awdurdod yn canolbwyntio'n ormodol ar yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd, ac yn ddiffygiol o ran amlinellu gweledigaeth ac uchelgais ar gyfer cyfnod y Cynllun (a thu hwnt).

Adran 1.1 Polisi Cludiant

Nid yw'n gwbl glir o'r testun yn yr adran hon a yw'r Awdurdod Lleol yn darparu cludiant am ddim i'r ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf. Os na, ac os yw'r Awdurdod yn mynnu bod rhieni sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant yn gorfod 'derbyn cyfrifoldeb llawn am drefniadau a chostau cludiant' rydym o'r farn bod yr Awdurdod yn methu â chydymffurfio â gofyniad y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i 'hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg pan fyddant yn arfer swyddogaethau o dan y Mesur hwn.'

Adran 2: Y Cynllun Gweithredu

Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'n amlwg bod gwaith da wedi'i wneud i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, mewn ymateb i'r galw cynyddol, dros y blynyddoedd diwethaf, a bod bwriad i barhau gyda'r arfer da sydd eisoes wedi'i sefydlu.

Fodd bynnag, teimlwn fod prinder targedau yn yr adran hon, ac unwaith eto bod mwy o bwyslais ar drefniadau sydd eisoes yn eu lle nag ar newidiadau a gwelliannau at y dyfodol. Ym marn UCAC, mae'n hollbwysig bod yr Awdurdod yn gosod targedau clir ar gyfer cynnydd yn nifer y plant saith oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg rhwng 2014 a 2017.

Deilliant 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

Mae'r cyfraddau trosglwyddo'n uchel iawn, ac mae hynny i'w gymeradwyo. Mae'n ymddangos bod y systemau yn eu lle (neu wedi'u cynllunio i'w gosod yn eu lle) er mwyn tracio niferoedd, ac i sicrhau bod y lefelau'n aros yn uchel. Mae'r nod o gadw cyfraddau trosglwyddo o 98% neu fwy yn gwbl dderbyniol.

Deilliant 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg

Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 16-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith

Unwaith eto, mae'n ymddangos bod gwaith da yn mynd rhagddo, neu ar y gweill yn y meysydd hyn. Serch hynny, gresynwn at y diffyg targedau unwaith eto. Gwyddom fod gwneud cynnydd yn y meysydd hyn, yn enwedig yn yr ystod oedran 16-19 yn ddibynnol ar bartneriaid, megis colegau addysg bellach (a gwerthfawrogwn yr wybodaeth a ddarperir ynghylch eu targedau nhw), ond nid yw hynny'n rheswm digonol dros beidio â gosod targedau ar gyfer yr Awdurdod Lleol. Mae rôl gan yr Awdurdod i gydweithio, a rhoi pwysau ar bartneriaid allanol i wella a chynyddu'r ddarpariaeth, yn ogystal ag i ddatblygu ei ddarpariaeth ei hun.

Deilliant 5: Rhagor o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg

Gwella gwaith sgiliau llythrennedd Cymraeg: Hoffem gael cadarnhad yn y Cynllun bod y rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, mi fyddai'n ddefnyddiol gwybod faint yn ychwanegol o Swyddogion Cymraeg mewn Addysg y bwriedir eu cyflogi i weithio'n benodol gyda'r sector uwchradd.

Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Iaith Gyntaf: Rydym yn falch gweld bod targedau wedi'u nodi yn yr adran hon. Fodd bynnag, nid yw'n glir pam fod rhai o'r targedau'n is na'r sefyllfa gyfredol e.e. ar gyfer cyrraedd Lefel 4+ yng Nghyfnod Allweddol 2; cyrraedd Lefel 5+ yng Nghyfnod Allweddol 3; canran y dysgwyr a gafodd A*-C yn TGAU Cymraeg – ni welwn esboniad yn y Cynllun o'r rheswm dros osod y targedau'n is na'r cyfraddau presennol.

Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Ail Iaith: Unwaith eto, croesawn y targedau clir yn yr adran hon. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y targedau ar gyfer lleihau'r niferoedd sy'n sefyll y Cwrs Byr yn uwch (60%, 55%, 50%) nag ydynt ar hyn o bryd (43%). Os mai'r rheswm dros hynny yw bod rhai dysgwyr yn sefyll y cwrs byr yn hytrach na ddim arholiad allanol o gwbl, mi allai fod yn ddealladwy - ond ni chynigir esboniad, ac ni nodir ffigyrau ar gyfer nifer y dysgwyr nad ydynt yn sefyll arholiad allanol ar hyn o bryd.

Mae'r ymadrodd 'cael cyfle i sefyll arholiad allanol Cymraeg Ail Iaith erbyn diwedd CA4' yn wan; bydd angen gwneud mwy na rhoi cyfle os am wella'r cyfraddau.

Cynyddu nifer y cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith fel canran o gofrestrïadau TGAU Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith: Nid oes unrhyw dargedau wedi'u nodi yn yr adran hon.

Deilliant 6: Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol cyfrwng Cymraeg

Dim sylw.

Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus

Mae llawer i'w groesawu yn yr adran hon.



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru



Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com

[facebook.com/AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) twitter.com/AthrawonCymru